Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.org

Dalier Sylw!
Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.

Gŵyl y Geni

Bu dathlu llawen yng ngofalaeth y Parchg Carys Ann wrth iddynt gofio gŵyl geni ein Harglwydd a'n Gwaredwr gyda byddin o blant ac oedolion yn rhan o'r paratoi a'r addoli.

Capel Brynmoriah, Brynhoffnant

Glynarthen

Ysgrifennydd Newydd

Daeth tymor Arwel Peleg Williams fel Ysgifennydd Cyhoeddiadau Ebeneser, Caerdydd i ben. Diolch o galon iddo am ei holl waith diwyd tros y blynyddoedd. Ysgrifennydd Cyhoeddiadau newydd Ebeneser yw Mrs. Janette Jones, ***janetteajones@gmail.com***, 07816 189745.

Capel Pisgah, Talgarreg

Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Wasg Morgannwg, 27 Ystad Ddiwyd. Mynachlog Nedd, Castell-nedd, SA10 7DR. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.

PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 150 | Rhif 2 | Ionawr 12, 2017 | 50c.

Nadolig yn Hope-Siloh

Daeth cynulleidfa fawr o aelodau a ffrindiau ynghyd ar fore Sul Rhagfyr 18 i ymuno â phlant ac ieuenctid Eglwys Hope-Siloh, Pontarddulais i ddathlu Gŵyl y Geni. Yr ieuenctid, o dan arweiniad graenus Siôn Tiplady, fu'n gyfrifol am ein tywys drwy'r gwasanaeth. Fe gafwyd cyflwyniadau llawn hiwmor oedd ar yr un pryd yn cynnwys neges bwrpasol a oedd yn sicrhau ein bod yn wir gofio neges y Nadolig. Fel pob blwyddyn bu edrych ymlaen at berfformiad y plant hŷn a'r lleiaf. Hanes Babwshka a gyflwynwyd gan y plant hŷn ac yna stori'r geni gan y plant lleiaf. Rhaid diolch i Marie-Lynne Jones a holl athrawon yr Ysgol Sul ac arweinwyr y Clwb Ieuenctid am eu gwaith caled a diflino.

Llewyrchodd Goleuni

Yn goron ar y diwrnod crëwyd naws arbennig gan aelodau ifanc y capel yn y Gwasanaeth Golau Cannwyll. Tywyswyd ni gan gerddoriaeth, carolau a darlleniadau Nadoligaidd yn ogystal â chyfeiriadau a darlleniadau a oedd yn ein hatgoffa o'r erchyllterau sy'n digwydd yn ein byd ni heddiw. Rhaid diolch i Gwen Jones am drefnu'r gwasanaeth ac i Eric Jones am ei gyfraniad cerddorol gwerthfawr i'r gwasanaethau. Bu'r gwasanaethau yma yn gyfle i ni fel eglwys gefnogi Apêl Lesotho a'r Yemen.

Jennifer Clarke

Tri Dathliad 2017

Yn ystod 2017 byddwn yn dathlu o leiaf dri digwyddiad hanesyddol.

- Y dathliad cyntaf y byddwn yn ei nodi fydd 300 mlwyddiant geni y Pêr Ganiedydd, William Williams, Pantycelyn ar 11 Chwefror, 1717 yn fferm Cefn-coed, Llanymddyfri.
- Hefyd byddwn yn dathlu 450 mlynedd ers argraffu Testament Newydd, William Salisbury ar 7 Hydref, 1567. Hwn oedd y cyfieithiad cyntaf o'r Testament Newydd i'r Gymraeg a fu'n sylfaen i waith mawr William Morgan.
- Yn drydydd, byddwn yn cofio ar 31 Hydref, Gŵyl yr Holl Saint, gychwyn y Diwygiad Protestannaidd pan hoeliodd y mynach di-nod Martin Luther ei 95 erthygl ar ddrws Eglwys y Castell yn nhref Wittenberg, yn yr Almaen. Digwyddiad a gafodd effaith enfawr ar Ewrop ac yma yng Nghymru.

Os gwyddoch am unrhyw ddigwyddiadau eraill y dylid eu nodi yn 2017 cysylltwch gyda ni rhag blaen.

Hwyl yr Ŵyl

Wrth gwrs, ar Ŵyl y Nadolig, y mae cyfle i gofio eraill, ond y mae lle i ddathlu a mwynhau'r ffaith i Dduw fod mor garedig wrthym fel dynoliaeth drwy anfon ei Fab i'r byd er mwyn pawb.

A dyma sut y bu'r dathlu mewn ambell i eglwys yng Ngogledd Cymru:

Brithdir

Yn y Brithdir ger Dolgellau ar nos Sul, 4 Rhagfyr, ymunodd cynulleidfa gref o bob oed mewn gwasanaeth Nadoligaidd o dan ofal y Parchg Iwan Llewelyn Jones a'r ieuenctid. Yn dilyn y gwasanaeth yn y capel, a hynny ar noson serennog braf, aeth nifer o gwmpas y pentref i ganu carolau, a chasglwyd oddeutu £160 tuag at Gronfa Cyfeillion Ysbyty Dolgellau. Braf wedyn oedd cael cymdeithasu uwchben pryd o fwyd blasus yng Ngwesty Cross Foxes.

Porthmadog

Bore Sul, 18 Rhagfyr, bu plant Salem, Porthmadog a'u rhieni o dan ofal Elen Jones yn gyfrifol am wasanaeth cofiadwy iawn a chasgliad y gwasanaeth yn cael ei gyflwyno i GISDA sy'n gwneud gwaith ardderchog ymhlith pobl ifanc, a braf yw dweud bod un o'n haelodau, sydd hefyd yn gyflwynydd ar S4C, Gethin Evans, yn gweithio i GISDA. Ar ddiwedd y gwasanaeth bu cymdeithasu rhwng pob oed uwchben paned neu ddiod oren, ac wedi i'r oedolion ddiflannu bu i'r plant (ac athrawon Ysgol Sul!) fwynhau cinio blasus o sglodion. Dyma beth oedd te parti Dolig!

Rhyd-y-main

Ac yna, yr un nos Sul, sef 18 Rhagfyr, daeth cynulleidfaoedd Brithdir; Rhyd-y-main a Libanus, Ganllwyd at ei gilydd i wasanaeth a arweiniwyd gan y bobl ifanc yng Nghapel Rhyd-y-main, a dyna braf, er bod yna amryw wedi cael eu taro gan salwch, oedd gweld cynulleidfa mor lluosog yn y capel, a'r pleser a gafwyd wedyn o fynd i'r Neuadd Bentref i fwynhau lluniaeth.

Oes, mae eisiau dathlu'r Dyfodiad, a gwerthfawrogi'r ffaith fod Iesu Grist wedi dod atom.

Iwan Llewelyn Jones
iwanllew@aol.com

Y Forwyn Fair

Dyma drydedd rhan yr astudiaeth Feiblaidd a draddodwyd gan Y Parchg Kenneth Lintern yng Nghyfarfodydd Blynyddol yr Undeb yn Llanuwchllyn 2016.

Cais Mair

Yna, "ar **y trydydd** dydd" (allweddol), y chweched dydd o'r dechrau, fel y bydd yr eneinio ym Methania chwe diwrnod cyn y diwedd, cyn y Pasg, daw'r briodas yng Nghana **Galilea**. Mae mam Iesu yno, ac Iesu a'i ddisgyblion hefyd wedi cael gwahoddiad. A oedd Mair yn helpu mewn rhyw ffordd? Hi sy'n siarad wrth y gweision; hi sy'n gwybod bod y gwin wedi pallu ac, er ymateb Iesu, hi sy'n ffyddiog ei fod ef yn gallu gwneud rhywbeth – nid mynd allan i brynu gwin, mae'n sicr.

Ymateb Iesu:

"Wraig, pam yr wyt ti'n ymyrryd â mi?" (nid wyf yn hoffi'r "ymyrryd"). Gwell fyddai: "Pam tynnu fi i mewn i'r peth?" Mae'r cyfieithiadau'n ceisio cyfleu idiom yn y gwreiddiol, ond efallai y tro hwn fe fyddai'n well cyfieithu'n llythrennol: "Beth yw hyn i ti a mi?", h.y. nid ni sy'n gyfrifol am drefn y briodas yma. Beth am ymdrechion eraill? BCN diwygiedig: "Wraig, beth sydd a fynni di â mi?" (gwaeth, yn fy marn i). JB: "Woman, why turn to me?" NIV: "**Dear** woman, why do you involve me?" NEB: "Your concern, **mother**, is not mine." Rwy'n hoffi beibl.net: "**Mam annwyl**, gad lonydd i mi. Beth ydy hynny i mi?" Yr unig broblem yw rhoi "Mam" yn lle "Wraig". Er mai ffordd arferol i ddyn gyfarch benyw yw'r "Wraig", ac nid yw'n golygu diffyg parch gan y mab wrth ei fam, eto teimlaf ei bod yn fwriadol ffurfiol yma, yn awgrymu elfen o bellter. "Nid yw f'awr i wedi dod eto" – y teimlad ei fod yn cael ei wthio cyn amser, ac mae'n protestio. Nid yw wedi dechrau ar ei weinidogaeth gyhoeddus eto; achlysur preifat yw hwn, **ond** bod y disgyblion yno.

Yr Awr

Mae'r "awr" yn hollbwysig yn Ioan, ac awr y groes fydd hi yn y pen draw. Er hynny, mae Iesu'n gweithredu; anodd meddwl amdano yn gwrthod. Gŵyr ei fam y bydd yn gweithredu - ond sut? A dyna'r arwydd cyntaf, yn amlygu ei ogoniant ,a'i ddisgyblion yn credu. Mae trafnidiaeth ar yr ysgol! Ac ofer gweld y wyrth heb ddeall yr arwyddocâd! A gwelwn fod y symbolaeth yn hollbwysig. **Llenwir** chwech o lestri carreg sylweddol, llestri i ddal dŵr at ddefodau puredigaeth. "Tynnwch beth allan" - fel y dŵr o'r ffynnon yn Samaria yn y man. "A oedd bellach yn win" (a'r gorau). Dim gweithred ar ran Iesu, wedi'r cyfan, dim ond dau orchymyn. Y Gair yn gnawd. A yw Ioan am i ni gredu bod y cyfan yn win, ynteu dim ond yr hyn a dynnwyd allan? Efallai dylem feddwl am afradlonedd gofal Duw yn y 12 basgedaid ar ôl porthi'r Pum Mil. Ynteu am win gwaed y cyfamod newydd?

Gwin Llawenydd

Yn lle defodau glanhau seremonïol yr hen drefn ceir gwin newydd llawenydd gwledd briodas a'r efengyl, y **newydd** da. Rhaid dal yr arwyddion ochr yn ochr ag ymadrodd Paul am yr ymwacáu. Ymwacaodd Iesu o'i statws a'i safle, nid o'i nerth a'i ogoniant – i lygaid ffydd! "Gwelsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad." Ac os nad ydym yn mynd i sefyll, gostied a gostio, dros yr unigrywiaeth yma, yn wyneb syniadau, athroniaethau **a** chrefyddau, cystal rhoi'r ffidil yn y to! Mae'r teulu'n mynd i lawr i Gapernaum am ychydig ddyddiau ac yna'n diflannu, ar wahân i ddirmyg ac anghrediniaeth y brodyr yn Ioan 7.

Herio'r Hen Drefn

Yna mae Ioan yn dod â glanhau'r deml i ddechrau'r weinidogaeth gyhoeddus – ar adeg y Pasg yn **Jerwsalem**. Mae Ioan wedi gwneud hyn yn fwriadol, ar wahân fod Iesu wedi gwneud hyn ddwywaith (annhebygol dros ben!) neu mai Ioan sy'n gywir yn hanesyddol, fel y credai C. H. Dodd. Mae Ioan am ddangos Iesu yn herio'r system, yr hen drefn, o'r dechrau, ei herio â'i newydd-deb. Gwin newydd yn lle dŵr; trefn newydd a theml newydd trwy'r atgyfodiad i ddod; yn y man (yn y sgwrs gyda Nicodemus) pobl newydd, wedi eu geni oddi uchod; dŵr bywiol wrth ffynnon Samaria ac addoliad newydd – cyn dychwelyd i Galilea i gloi'r adran gyntaf trwy iacháu mab swyddog i'r brenin "ar y trydydd dydd" ar ôl deuddydd yn Samaria: iacháu o bell, eto trwy ddweud yn unig (y Gair yn gnawd), a rhagflas o'r atgyfodiad.

Bydd rhan olaf yr astudiaeth hon yn y Tyst yr wythnos nesaf.

Y PARCHG EVAN CYNFFIG DAVIES

Un o'r pethau pwysicaf a ddigwyddodd yn hanes cerddoriaeth yng Nghymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd twf yn natblygiad y Tonic Sol-ffa. Dywedir mai dau o brif genhadon y "nodiant newydd" oedd Ieuan Gwyllt (llun) ac Eleazar Roberts. Trwy eu hymdrechion hwy sefydlwyd dosbarthiadau a chasgliadau cerddorol ymysg plant yr Ysgolion Sul.

Cefndir

Ganwyd E.Cynffig Davies ym mro Cefn Cribwr yn y flwyddyn 1843, mewn tŷ lle y bu Iolo Morgannwg yn byw am rai blynyddoedd. Fel llawer o fechgyn y De, o'i oes, aeth i weithio i'r pwll glo er nad oedd ond rhyw wyth oed. Yr oedd yn hoff o fiwsig a threuliai ei amser hamdden prin yn astudio cerddoriaeth. Erbyn cyrraedd pymtheg oed, cadwai ddosbarth Sol-ffa yng Nghapel Elim, Mynydd Cynffig lle yr oedd hefyd yn arweinydd y gân. Y mae sôn amdano yn arwain côr o dros gant o leisiau cyn cyrraedd un ar bymtheg.

Meddyg Eneidiau

Ei fwriad pan yn ifanc oedd mynd yn genhadwr meddygol, ond yn ystod cyfnod ei astudiaeth yng Ngholeg Caeredin yn yr Alban, darganfu bod ei dreuliau yn fwy nag oedd wedi ei ddisgwyl, a bu rhaid iddo ymadael.

Dechreuodd ei yrfa ym Môn pan ordeiniwyd ef yn Weinidog gyda'r Annibynwyr yng Nghaergybi yn 1869. Symudodd i Lannerchymedd yn 1871,ac odd iyno i Borthaethwy yn 1875 lle y treuliodd dros ddeng mlynedd ar hugain fel Gweinidog yn Llanfairpwll a Phorthaethwy.

Addysgwr

Yn ogystal â'i waith yn y Weinidogaeth, cymerai ddiddordeb mawr mewn addysg, a chododd sawl ysgol ar yr Ynys. Gweithiodd yn galed yn ysgrifennu at gylchgronau ar faterion cerddorol. Gwasanaethodd fel beirniad ac arweiniodd Gymanfaoedd Canu, a phwysig iddo fyddai cael trefn, gwedduster ac urddas yn y canu cynulleidfaol yn yr Addoliad cyhoeddus.

Gweithiau Curwen

Ei brif gyfraniad i Genedl y Cymry oedd ei gyfieithiad o chwech neu fwy o werslyfrau Saesneg John Curwen (llun) ar y Tonic Sol-ffa, a chan bod pob cyfrol wedi cael cylchrediad da, llwyddodd llawer o Gymry i'w meistrioli a dod i ddarllen eu llyfrau tonnau yn ogystal a'u llyfrau Emynau. Cafwyd gwelliant yn y caniadaeth cynnulleidfaol, cafwyd canu a oedd yn gywirach o ran amser a seiniau, a chafwyd "tonic" yn y Sol-ffa mewn cyfnod pan oedd ansawdd y canu yn bur anniben. Gŵr, felly, oedd wedi gwneud gwahaniaeth mawr i gerddoriaeth yng Nghymru ar ôl cael ei argyhoeddi o werth y nodiant newydd. Gwynebodd wrthwynebiad gan lawer o'r hen gerddorion oedd ddim yn gweld mantais mewn dod â nodiant newydd i mew i ddisodli yr hen.

Bu farw'r Parchg E. Cynffig Davies ym 1908, yn chwedeg pump oed, ac y mae wedi ei gladdu ym Mynwent Llantysilio, Porthaethwy, Môn. Ni chefais y fraint o'i adnabod, ond yr oedd ei enw yn gyfarwydd iawn ar ein haelwyd. Yr oedd gan fy rhieni barch mawr tuag ato, yn enwedig am eu bod, ar un amser, yn aelodau o'i Gynulleidfa ac yn hoff o fiwsig a chanu. Yr hyn sy'n bwysig i mi yw fy mod wedi fy nhrwytho yn y Tonic Sol-ffa oherwydd i mi orfod mynychu gwersi ac eistedd arholiadau ar y pwnc pan yn blentyn yng Nghapel Ebenezer, Llanfairpwll. Roedd hynny yn sgïl llafur mawr y gŵr athrylithgar hwn. Oes, mae gennym le mawr i ddiolch iddo ac amdano.

Mabel Winterburn

Barn Annibynnol

Menter Elyrchaidd

Eirian Rees

Mae'r erthygl hon yn cael ei hysgrifennu ar ddiwrnod pan mae'r "Swans" - sef tîm pêl-droed Dinas Abertawe wedi dod o hyd i reolwr newydd. Merthyr o ddyn - druan ag e! Mae'r tîm mewn tipyn o strach am ei fod ar hyn o bryd yn gwneud arferiad o golli. Ond y mae Paul Clement yn barod i gymryd risg ac y mae'r un peth yn wir am y perchnogion. Adfer y sefyllfa yw eu bwriad a sicrhau nad yw'r tîm yn disgyn i adran yn is y flwyddyn nesaf.

Ar y Clwt

A hithau'n gyfnod o segurdod ôl-Nadolig, mae gan rywun amser i bwslo a dyfalu. Beth am ein capeli? Wedi canrif mwy neu lai o ddirywiad (methiant?) difrifol, a oes menter "elyrchaidd" i'w weld yn unrhyw fan? Yn gam neu'n gymwys, y mae tîm Dinas Abertawe wedi ceisio gwneud rhywbeth am y sefyllfa sef, rhoi'r sac i un rheolwr ar ôl y llall oherwydd bod y clwb yn rhy bwysig i gario methiant parhaol.

Bai Duw

A oes yna esgusodion neu esboniad dros arafwch yr holl sustem eglwysig i daclo'r dirywiad? Tybed oes yna ran o'r ateb mewn un gosodiad - "ar Dduw mae'r bai?" Onid ei waith Ef yw'r cyfan? Ni ellir cyflawni dim o werth hebddo. Felly, os nad ydyw E'n symud, y mae popeth yn llonydd, does dim amdani ond byw gyda pharlys a gorfod bodloni'n dawel bach ar bethau fel ma' nhw. Os felly, does dim pwynt gwastraffu egni a defnyddio llawer o adnoddau a hynny i gerdded yn yr unfan. Mae mentro'n beryglus, dychymyg yn niwsans a newid mas o'r cwestiwn a dyw'r holl beth ddim o bwys mawr beth bynnag.

Hotel Inspector

Oes yna arweiniad ar ein cyfer? Credaf yn gryf erbyn hyn y dylai pob arweinydd eglwysig edrych ar o leiaf chwe rhifyn o'r rhaglen "Hotel Inspector". Yn y rhaglenni yma mae Alex Polizzi yn bwrw golwg ar westai sydd wedi dirywio ac yn methu. Gan amlaf y mae'r perchnogion yn hiraethu am well byd ond yn amharod i weld newid i gyrraedd hynny. O dan ddylanwad yr "Inspector" mae'r perchnogion yn cael eu herio. Yn gyntaf, i weld eu heiddo trwy lygaid darpar gwsmeriaid ac i sylweddoli taw barn y cwsmer sy'n bwysig nid eu chwaeth fympwyol a methiannus nhw'u hunain. Yn ail, cânt eu tywys i edrych ar eu hadnoddau ac yn olaf, y drefn gyda'r staff, y fwydlen, cyflwr y gwelyau a'r ddesg croeso.

Adolygiad Radical

Nôl at fyd eglwys a chapel. Y mae amgylchiadau'n hoes yn diffygio oblegid prinder o ffrwythau'r efengyl. Mae'r meysydd yn barod am gynhaeaf sy'n cynnwys gobaith ac addewid am fywyd gwell. Ble mae'r gwendid? Duw? Y gweithwyr? Y byd mawr tu allan i'r eglwys? Gall neb ddadlau nad oes galw mawr am weld y teulu Cristnogol yn bwrw ati i gyflawni'n greadigol yn enw Iesu Grist. Onid yw dechrau blwyddyn newydd yn galw am adolygiad sylfaenol a radical?

Gyda llaw, mae'r Elyrch newydd ennill 2 – 1 yn erbyn Crystal Palace. Diwygiad?

Eirian Rees

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

Adolygiad o "Martin Luther"

(Visionary Reformer, Scott H. Hendrix, (2015, argraffwyd yn y DG gan Wasg Gomer, £25.00), 341 t.)



Yn 2017 byddwn yn dathlu pum canmlwyddiant cychwyn y Diwygiad Protestannaidd a'r digwyddiad eiconig hwnnw ar noson Calan Gaeaf pryd y gosododd y mynach dinod Martin Luther ei bymtheg erthygl a phedwarugain ar ddrws eglwys y castell yn Wittenberg gan godi cwestiynau mawr ynglŷn â threfn maddeuebau'r Eglwys Gatholig Rufeinig. Er na theithiodd ef erioed ymhell o'i gynefin, teithiodd ei syniadaeth ar hyd a lled Ewrop a'r byd gan weddnewid hanes y ffydd Gristnogol am byth. Ef yw un o'r rhesymau pam yr wyf yn ysgrifennu'r erthygl hon heddiw yn y Gymraeg.

Ond faint a wyddom ni am y gŵr hynod hwn? Gŵyr y rhan fwyaf sydd wedi astudio ychydig ar hanes Cristnogaeth beth ffeithiau sylfaenol amdano. Ond a yw popeth a wyddom yn wir neu yn ganlyniad rhagdybiaethau ac rhagfarnau?

Bywgraffiad

Y mae'r gyfrol academaidd ardderchog hon yn cyflwyno darlun cytbwys o Luther yn cynnwys ei gryfderau a'i wendidau. Cyflwynir ei waith a'i weledigaeth ond hefyd cawn gipolwg arno fel person o gig a gwaed gyda'i wraig a'i blant a'i ffrindiau. Olrheinir ei daith ysbrydol o'i ddyddiau cynnar fel darpar gyfreithiwr i'w dröedigaeth yn nhŵr y fynachlog yn Wittenberg ar modd yr oedd ei argyhoeddiadau'n datblygu dros y blynyddoedd. Amlygir ei lwyddiant mawr yn argyhoeddi llawer o bobl bod elfennau ofergoelus a thwyllodrus o fewn yr eglwys a hefyd tynnir ein sylw ac y camgymeriadau dybryd a wnaeth trwy gefnogi'r uchelwyr yn ystod gwrthryfel y werin 1524 a'i wrth Iddewiaeth ffiaidd. (Gw. Tud. 274)

Rhagdybiaethau

Roedd gen i ddarlun yn fy meddwl ohono fel penboethyn digyfaddawd oedd yn casáu'r Eglwys Gatholig, ond nid dyna'r gwir. Gallai fod yn fyrbwyll ond ar y cyfan roedd yn ŵr deallus a rhesymol oedd am ddiwygio'r Eglwys Gatholig o'i mewn trwy gynnig camau i gywiro'r cyfeiliornadau a welai ef yn ei bywyd a'i gwaith. Nid cefnu a wnaeth ar yr Eglwys Gatholig ond cael ei wthio allan. Onid dyna yw hanes pob diwygiwr yn y diwedd? ".... Luther reviewed the beginnig of the reformation in order to argue that his purpose had never been to start a new church. His original intention was to use an academic debate to call attention to the abuse of indulgences." (Tud. 268)

Yr oedd yn barod i fod yn bwyllog gan roi digon o amser i wneud y newidiadau hyn. (Gw. tud. 129)Yn wir, ar nifer o achlysuron gwrthwynebodd ddiwygwyr eraill oedd am fod yn llawer mwy eithafol nac ef ei hun. (Gw. Tud. 186) Pwysleisiai ryddid y Cristion yng Nghrist ac na ellid diffinio Cristion yn ôl rheolau a rheoliadau.

".. Luther opposed anything that defined Christians by a set of specific rules and regulations. Living for seventeen years in two monasteries where every detail was prescribed or proscribed was enough for Luther. Since 1519 he had attached the Greek word for "free" to his signature, liberty had grown on him. Choosing to appear in monastic garb for his first sermon back in Wittenberg was itself an act of freedom that he publicly acknowledged: " If the pope or anyone tried to force me to wear only the (monk's) cowl, I would defy that person and refuse. But now, of my own free will, I choose to wear it as long as I want, and when I no longer feel like wearing it, i will lay it aside," (Tud. 130)

Cymeriad Brith?

Gweithiodd yn ddiflino ac un o lwyddiannau mwyaf ei fywyd oedd ei gyhoeddiadau toreithiog yn cynnwys y Beibl Almaeneg. Roedd yn argyhoeddedig y dylai pobl gael y Beibl yn eu hiaith eu hunain ac nid mewn Lladin annealladwy. Rhaid ei fod yn ysgrifennu erthyglau yn ei gwsg gan ei fod mor gynhyrchiol. Manteisiodd i'r eithaf ar y wasg brintiedig, oedd wedi datblygu, er mwyn hyrwyddo ei argyhoeddiadau a'i ddealltwriaeth o'r Efengyl Gristnogol. Yr oedd deuoliaeth i'w gymeriad, ar un llaw roedd yn ysgolhaig medrus ond ar y llaw arall yr oedd rhywbeth amrwd ac agos at y pridd yn ei ymddygiad. Fel pawb ohonom yr oedd yn perthyn i gyfnod arbennig ac mae'n rhaid ei dafoli o fewn i ddiwylliant ac arferion y cyfnod hwnnw ac nid o fewn i'n diwylliant cyfoes ni bum can mlynedd yn ddiweddarach.

Os ydych am grafu'n ddyfnach na'r wyneb i hanes Martin Luther dyma gyfrol ragorol i'w darllen yn ystod 2017.

(Y mae'r awdur Scott H. Hendrix yn Athro Emeritws Hanes y Diwygiad Protestannaidd yn y Princeton Theological Seminary. Y mae'n awdur nifer o gyfrolau yn cynnwys *A Very Short Intoduction* (2011), *Tradition and Authority in the Reformation* (1996), *Recultivating the Vineyard: The Reformation Agendas of Christianization* (1996) a *Luther and the Papacy* (1981). Y mae'n byw yn Fearrington Village, North Carolina, U.D.A.)